Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Senedd Hybrid

3 Awst 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 30 Mehefin, pan wnaethoch ofyn:

> *Rwy'n gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer yr holl ohebiaeth rhwng staff Comisiwn y Senedd ynghylch ailagor Siambr y Senedd ar gyfer yr Aelodau yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai a mis Mehefin 2020.*

Gallaf gadarnhau bod Comisiwn y Senedd yn cadw gwybodaeth mewn perthynas â'ch cais. Fodd bynnag, mae adran 12 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("DRhG") yn eithrio gwybodaeth lle rydym yn amcangyfrif bod y gost o gydymffurfio â chais yn fwy na'r terfyn priodol. Mewn perthynas â'r Senedd, pennir y terfyn hwn yn Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 fel £600. Drwy gymhwyso'r gyfradd tâl fesul awr o £25 a ragnodir yn y Rheoliadau, mae hyn yn cyfateb i 24 awr o waith.

Ein hamcangyfrif yw y byddai angen 141 awr a 45 munud o waith. Felly, gan fod yr amcangyfrif hwn yn uwch na'r terfyn a ragnodir i adran 12 o'r DRhG, nid ydym mewn sefyllfa i ddatgelu'r wybodaeth hon i chi. Mae'r ymresymiad dros y penderfyniad, ac esboniad o'r modd yr amcangyfrifiwyd nifer yr oriau, wedi'u gosod allan isod.

Er mwyn pennu amcangyfrif teg a chywir, gofynnwyd i bob aelod o'r Tîm Arwain (sy'n cynnwys y Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid Gwasanaeth) chwilio am y term 'cyfarfod llawn hybrid' yn eu cyfrifon Outlook, SharePoint, OneDrive a Microsoft Teams. Cofnodwyd cyfanswm nifer yr eitemau a ganfuwyd, ynghyd ag amcangyfrif o'r amser a gymerwyd i agor ac ystyried pob eitem i benderfynu a oedd yn cynnwys y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Yna, lluoswyd yr amcangyfrif o'r amser y byddai'n ei gymryd ar gyfer un eitem â nifer yr eitemau, a chasglwyd y cyfanswm ar gyfer pob maes gwasanaeth a ymatebodd. Cyfanswm hyn oedd 141 awr a 45 munud. Gan fod y cais hwn yn canolbwyntio ar

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

gyfathrebu ar adeg pan yr oedd Tŷ Hywel ar gau i'r holl staff heblaw rhai hanfodol yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, nid oedd ffeiliau copi caled i chwilio drwyddynt, dim ond cofnodion electronig.

Mae gan Gomisiwn y Senedd ddyletswydd o dan adran 16 o'r DRhG i roi cyngor a chymorth i chi, i'r graddau y byddai'n rhesymol disgwyl i ni wneud hynny, mewn perthynas â'ch cais. O ystyried faint o wybodaeth a gasglwyd, efallai y bydd yn anodd lleihau cwmpas eich cais er mwyn dod ag ef o dan y terfyn priodol. Fodd bynnag, os gallaf fod o unrhyw gymorth pellach, er enghraifft os oes gennych ddiddordeb mewn gohebiaeth gan wasanaeth neu unigolyn/unigolion penodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi a byddaf yn ymdrechu i gynorthwyo.

Dylwn ei gwneud yn glir nad yw'r ffaith ein bod wedi dibynnu ar yr eithriad o dan adran 12 o'r DRhG yn awgrymu efallai na fyddai eithriadau eraill, wrth ystyried ymhellach, wedi bod yn berthnasol yn y pen draw, megis pe bai cwmpas eich cais yn cael ei gulhau.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF